



Gwirfoddoli a COVID-19: Rheoli ymgeiswyr anaddas

1. CEFNDIR

Mae'r ymateb anhygoel i gefnogi gweithredu cymunedol a gwirfoddol wedi peri i lawer o ddarpar wirfoddolwyr newydd gamu ymlaen i gynnig eu hamser a'u sgiliau. Cymeradwywn eu haelioni a'u parodrwydd i helpu. Yn anffodus, rydym hefyd yn clywed straeon am rai unigolion anaddas yn ceisio camu i rolau gwirfoddol y byddai'n amhriodol iddynt eu cyflawni.

Mae mynediad i'r rhai sy'n agored i niwed, i blant neu oedolion sydd mewn perygl, bob amser wedi bod yn fater y mae'r trydydd sector wedi bod yn ymwybodol iawn ohono. Mae ein mecanweithiau diogelu o ran risgiau confensiynol wedi'u mireinio'n dda. Er gwaethaf y pwysau y gallem deimlo i recriwtio'n gyflym ar hyn o bryd, nid dyma'r amser i ollwng ein gwarchodaeth. Mae'r arwahanrwydd cymdeithasol gofynnol wedi torri cysylltiadau cefnogol ac amddiffynnol i lawer o unigolion a theuluoedd a allai bellach wynebu risgiau ychwanegol.

Er bod mwyafrif helaeth ein gwirfoddolwyr yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol yn cael eu defnyddio gyda gofal mawr am ddiogelwch pawb, gall yr amgylchiadau presennol gynnig cyfleoedd i ymgeiswyr anaddas lithro trwy'r rhwyd.

Cynhyrchwyd y canllaw yma i helpu sefydliadau i reoli ymgeiswyr anaddas yn ystod yr amser hwn.

2. PWY SY’N YMGEISYDD ‘ANADDAS’?

Gallai anaddasrwydd unigolyn ar gyfer rôl ddibynnu ar nifer o ffactorau, ond gallai gynnwys y wybodaeth ganlynol yn dod i'r amlwg:

- Mae'r ymgeisydd yn destun ymchwiliad yr heddlu ar hyn o bryd
- Mae'r ymgeisydd yn droseddwr rhyw cofrestredig
- Mae gan yr ymgeisydd euogfarnau anhreuliedig am ddwyn neu dwyll
- Dychwelir gwybodaeth berthnasol arall ar dystysgrif DBS uwch sy'n nodi y byddai'r ymgeisydd yn anaddas ar gyfer y rôl
- Mae'r ymgeisydd wedi'i ddiswyddo o'r blaen o rôl gwirfoddoli neu gyflogaeth oherwydd digwyddiadau diogelu
- Mae sefydliadau eraill wedi cymryd camau i rannu gwybodaeth i fynegi pryderon am ymddygiad yr ymgeisydd mewn perthynas â phobl a allai fod yn agored i niwed

3. BANERI COCH

Yn absenoldeb gwybodaeth bendant, dylai sefydliadau hefyd fod yn effro i 'faneri coch' am ymddygiad unigolyn a allai ddynodi anaddasrwydd ar gyfer rôl gwirfoddoli, naill ai yn ystod y broses ymgeisio neu wrth ei roi mewn rôl. Gallai hyn gynnwys:

- yn methu â dilyn cyfarwyddyd ac yn diystyru gofynion
- yn arddangos ymddygiad ymosodol neu amhriodol yn bersonol neu ar-lein ee 'tynnu coes' rhywiol, iaith wahaniaethol, ymddygiad bygythiol
- yn torri cod ymddygiad wrth ddelio â phobl sydd mewn perygl
- torri neu gymylu'r ffiniau y dylent eu gweithredu rhyngddynt hwy a'r unigolyn sy'n derbyn gwasanaeth

4. RHEOLI YMGEISWYR ANADDAS

Ni ddylai unrhyw sefydliad sy'n dod yn ymwybodol o ymgeisydd anaddas fwrw ymlaen â'r lleoliad neu, os ydyn nhw eisoes yn gwirfoddoli, dylent ddweud wrthyn nhw am roi'r gorau i'w gweithgaredd gwirfoddoli ar unwaith. Dylid darparu hyn iddynt yn ysgrifenedig hefyd.

Dylid canslo unrhyw awdurdodiad sy'n cydnabod eu statws fel gwirfoddolwr gyda'r sefydliad. Dylid dychwelyd neu ddinistrio eu copi eu hunain (cerdyn adnabod gwirfoddolwr neu lythyr caniatâd). Dylid hysbysu unrhyw bersonau yr oedd yn hysbys iddynt (ee defnyddwyr gwasanaeth) yn eu rôl fel gwirfoddolwr nad ydynt bellach yn ymgymryd â rôl fel rhan o'ch sefydliad, ac os byddai'r unigolyn yn cysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth, dylent hysbysu'r sefydliad ar unwaith. Dylid rhoi gwybod i'r heddlu am unrhyw gamau parhaus o'r fath.

Os yw unigolyn mewn gweithgaredd rheoledig, ar yr adeg y caiff ei ddiswyddo rhag ymgymryd â rôl gweithgaredd rheoledig (neu os yw'n ymddiswyddo neu'n tynnu ei hun o rôl gweithgaredd rheoledig), dylid ei adrodd i'r DBS (gweler y ddolen isod)). Os credir bod y gweithiwr neu'r gwirfoddolwr yn dymuno cael swydd sy'n weithgaredd rheoledig, hyd yn oed os nad yw mewn rôl o'r fath ar hyn o bryd, gellir eu hadrodd i'r DBS o hyd.

Gellir cau cyfrif unigolyn ar Wirfoddoli Cymru, os hysbysir gweinyddwyr o'r sefyllfa.

Anogir unrhyw sefydliad yn gryf hefyd i drafod y sefyllfa gyda'u Cyngor Gwirfoddol Sirol, rhag ofn bod y gwirfoddolwr yn hysbys i sefydliadau eraill: [Cefnogi Trydydd Sector Cymru CGSau](#).

5. RHANNU GWYBODAETH

Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen rhannu gwybodaeth y tu hwnt i'ch sefydliad os byddwch chi'n dod yn ymwybodol o bobl a allai beri risg.

Dylai sefydliadau fod yn ymwybodol nad yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yn rhwystr i rannu gwybodaeth o ran diogelu pobl

a allai fod mewn perygl. Darllenwch ein canllaw am ragor o wybodaeth, [Safeguarding and Data Protection](#).

O dan Ran 5 o [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#), dylid rhoi gwybod i'r Swyddog Dynodedig Awdurdod Lleol am bob gweithiwr (gan gynnwys gwirfoddolwyr) sydd â rôl mewn cysylltiad uniongyrchol â phlentyn neu oedolyn sydd mewn perygl, os ydynt yn gweithredu'n amhriodol yn eu rôl.

Dylai unrhyw weithiwr neu wirfoddolwr mewn gweithgaredd rheoledig (sy'n gofyn am wiriad rhestr wahardd yn ôl y gyfraith) hefyd gael ei adrodd i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o dan y ddyletswydd i atgyfeirio sy'n berthnasol i unrhyw gyflogwr neu sefydliad gwirfoddol sy'n gosod unigolyn mewn gweithgaredd rheoledig: [DBS Report those unfit for work with children or adults](#). Yna gall y DBS ystyried eu gwahardd rhag gweithgaredd rheoledig.

Mae Protect yn elusen chwythu'r chwiban a all gefnogi unrhyw un sy'n rhannu gwybodaeth am wneud drwg yn y sector elusennol: [Protect advice](#).

Mae'r Comisiwn Elusennau yn disgwyl i bob elusen gofrestredig, trwy eu Bwrdd, gyflwyno adroddiad digwyddiad difrifol i'r Comisiwn mewn ymateb i ddigwyddiad diogelu: [How to report a serious incident in your charity](#).

YMWADIAD

Mae'r canllaw hwn wedi'i fwriadu er gwybodaeth yn unig. Nid yw'n cymryd lle cyngor cyfreithiol na phroffesiynol ac nid yw CGGC yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golled a achosir o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.